

Ordinhad 9: Canghellor a Dirprwy Ganghellor

Corff Cymeradwyo:	Y Cyngor
Dyddiad Cymeradwyo:	24 Ebrill, 2020
Perchennog y Polisi:	Ysgrifennydd y Brifysgol
Swyddog Polisi:	Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
Statws y Polisi:	Newydd
Fersiwn:	1.0
Dyddiad adolygu:	Ebrill 2023

Ordinhad 9: Canghellor a Dirprwy Ganghellor Swyddogaethau a Phenodi

Canghellor a Dirprwy Ganghellor/Cangellorion

1. Swyddogaethau a Phenodi

- i. Bydd y Canghellor yn swyddog lleyg a benodir gan y Cyngor a bydd yn dal y swydd am gyfnod o bum mlynedd neu tan eu marwolaeth neu ymddiswyddiad cyn hynny.
- ii. Bydd y Dirprwy Ganghellor yn swyddog lleyg a benodir gan y Cyngor a bydd yn dal y swydd am gyfnod o bum mlynedd neu tan eu marwolaeth neu ymddiswyddiad cyn hynny.
- iii. Bydd y Canghellor yn dyfarnu Graddau ac yn cyflwyno dyfarniadau ac anrhydeddau eraill y Brifysgol. Yn absenoldeb y Canghellor, ac yn ystod cyfnod pan fo'r swydd yn wag, bydd yr Is-ganghellor, neu mewn ymgynghoriad â'r Is-ganghellor, bydd y Dirprwy Ganghellor yn gweithredu'r swyddogaeth hon.
- iv. Pan fydd swydd y Canghellor neu'r Dirprwy Ganghellor yn wag, bydd y Cyngor yn penodi pwyllgor dewis i ystyried y penodiad. Caiff y swydd wag ei hysbysebu'n allanol.
- v. Bydd pwyllgor dewis y Canghellor yn cynnwys:
 - a. Cadeirydd y Cyngor
 - b. Tri aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
- vi. Bydd pwyllgor dewis y Dirprwy Ganghellor yn cynnwys:
 - a. Cadeirydd y Cyngor;
 - b. Tri aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
- vii. Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cadeirio cyfarfodydd y pwyllgor dewis oni bai ei fod ef/hi yn dymuno cael ei ystyried/ei hystyried ar gyfer y swydd wag, ac os felly bydd yn esgusodi ei hun o'r pwyllgor dewis a bydd y Canghellor, neu'r Dirprwy Ganghellor sydd wedi gwasanaethu hiraf sy'n bresennol yn cadeirio.
- viii. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn gweithredu fel Ysgrifennydd y pwyllgor dewis.
- ix. Bydd y pwyllgor dewis yn ymgynghori'n briodol ac yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor.

2. Cymhwyster ar gyfer Ailbenodi

- i. Bydd y Canghellor yn gymwys i'w ailbenodi am un tymor arall o hyd at bum mlynedd a chaiff wasanaethu am gyfanswm o ddau dymor yn unig.
- ii. Bydd Dirprwy Ganghellor yn gymwys i'w ailbenodi am un tymor arall o hyd at bum mlynedd a chaiff wasanaethu am gyfanswm o ddau dymor yn unig.

- iii. Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ystyried ailbenodiad i ail dymor yn y swydd ac yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor. Bydd unrhyw un sy'n cael ei ystyried ar gyfer eu hailbenodi yn cael eu heithrio o'r pwyllgor.

3. Swyddogaethau'r Canghellor a'r Dirprwy Ganghellor

Bydd y Canghellor, mewn swyddogaeth er anrhydedd, yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennir gan y Cyngor a fydd yn cynnwys:

- i. Ymgymryd â swyddogaeth lysgenhadol i'r Brifysgol a fydd yn cael ei chytuno gan y Cadeirydd a'r Is-ganghellor.
- ii. Llywyddu yn seremonïau graddio'r Brifysgol.

Bydd y Dirprwy Ganghellor/Cangellorion mewn swyddogaeth er anrhydedd, yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennir gan y Cyngor a fydd hefyd yn cynnwys:

- i. Swyddogaethau fel y bo'r Canghellor yn eu dirprwyo; a
- ii. Chadeirio cyfarfodydd Llys y Brifysgol; a
- iii. Gweithredu fel Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn absenoldeb y Cadeirydd; a
- iv. Chadeirio'r Pwyllgor Taliadau; a
- v. Holl swyddogaethau'r Canghellor yn absenoldeb y Canghellor neu yn ystod cyfnod pan fo'r swydd honno'n wag.

4. Ymddiswyddiad/Symud o'i Swydd

- i. Gall y Canghellor neu Ddirprwy Ganghellor ymddiswyddo trwy roi rhybudd ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Cyngor.
- ii. Os yw'r mwyafrif o blith y Canghellor, y Dirprwy Ganghellor/Gangellorion (ac eithrio'r unigolyn dan sylw), Cadeirydd y Cyngor a'r Is-ganghellor o'r farn y dylid symud yr unigolyn am y rhesymau canlynol:
 - a) Methiant sylweddol i gyflawni eu swydd yn ystod y deuddeng mis blaenorol; neu
 - b) Fethiant ac esgeulustod sylweddol i gyflawni eu swydd; neu
 - c) Ymddwyn mewn modd amhriodol i'r Canghellor/Dirprwy Ganghellor; neu
 - d) Unrhyw reswm da arall a ddiffinnir yn Ordinhad 6, paragraff 1.4.

Yna, rhaid sefydlu Panel sy'n cynnwys tri aelod annibynnol o'r Cyngor, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd y Cyngor, i ystyried yr achos a gwneud argymhelliad i'r Cyngor a ddylid ei gadarnhau neu ei wrthod. Bydd y Cadeirydd yn cael ei ddiswyddo os bydd penderfyniad i wneud hynny yn cael pleidlais y mwyafrif o holl aelodau'r Cyngor.